**LC1186**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Cig (Rheolaethau Swyddogol) (Ffioedd) (Cymru) 2005

Mae’r Rheoliadau yma’n rhoi Rheoliadau Ewropeaidd newydd ar hylendid bwyd ar waith yng Nghymru. Bydd y Rheoliadau’n caniatáu ar gyfer parhau i gymhwyso’r ffioedd cyfredol am hylendid cig ac archwiliadau cig ac yn cyflwyno system o godi ffioedd am amryw o wiriadau a rheolaethau milfeddygol ar gynhyrchion penodol sy’n deillio o anifeiliaid.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae rheoliad 2 yn nodi diffiniadau o dermau sy’n cael eu defnyddio yn y Rheoliadau. Mae angen rhoi sylw i rai o’r diffiniadau yma.

Mae’r diffiniad o "safle torri" ("cutting plant") yn cynnwys mangreoedd ar oedd, ar 31 Rhagfyr 2005, yn gweithredu fel mangreoedd torri trwyddedig o dan Reoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Arolygu 1995) neu Reoliadau Cig Dofednod, Cig Adar Hela a Ffermir a Chig Cwningod (Hylendid ac Arolygu) 1995. Yn y testun Cymraeg, mae’r cyfeiriad at y Rheoliadau olaf yma ar goll. [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Mae’r rheoliad yn cynnwys diffiniad o "anifeiliaid hela" ("game") sydd wedi’i ddiffinio yn nhermau

Rheoliad EC 853/2004. Dydy Rheoliad 853/2004 ddim yn cynnwys diffiniad o’r term bras "game"; er hynny, mae e’n cynnwys sawl diffiniad penodol o’r termau "farmed game", "wild game", "small wild game " a "large wild game". Os bwriedir i’r diffiniad o "anifeiliaid hela" rychwantu pob un o’r diffiniadau yn Rheoliad 853/2004, yna dylai’r diffiniad gael ei ddiwygio yn unol â hynny. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae’r diffiniad o "reolaethau swyddogol" ("official controls") yn rheoliad 2 yn cynnwys cyfeiriad at Reoliad EC 853/2003. Mae Rheoliad 853/2003 yn ymwneud ag uchafswm ad-daliadau i arbenigwyr ar reis grawn crwn sydd wedi’i falu’n llwyr; Rheoliad 853/2004 yw’r cyfeiriad cywir. [Rheol Sefydlog 11.7 (v)].

Yn nhestun Saesneg paragraff 8(5)(e) o Atodlen 2, mae’r cyfeiriad at "working hours" yn digwydd ddwywaith; gall y gwall teipograffyddol yma gael ei gywiro drwy ddileu "or working hours". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae paragraff 18 o Atodlen 2 yn nodi diffiniadau o dermau sy’n cael eu defnyddio yn yr Atodlen honno. Mae is-baragraff (a) yn cynnwys diffiniad o "cynorthwyydd swyddogol" ("official auxiliary") ond dydy’r term ddim wedi’i ddefnyddio yn yr Atodlen ac felly does dim o’i angen ac fe ddylai gael ei ddileu. Mae is-baragraff (b) yn nodi diffiniad o "arolygydd" ("inspector") sy’n golygu milfeddyg swyddogol (fel y mae wedi’i ddiffinio yn is-baragraff (a)) neu "filfeddyg a gymeradwywyd" ("approved veterinarian"). Dydy’r term olaf yma ddim wedi’i ddiffinio ei hun, a bernir y dylai diffiniad o’r term "milfeddyg a gymeradwywyd" gael ei gynnwys. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Gall y gwallau drafftio a’r gwallau teipograffyddol uchod gael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae pwyntiau fformadu, sy’n addas i’w cywiro wrth gyhoeddi’r Rheoliadau, wedi’u mynegi i’r cyfreithiwr a’u drafftiodd.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 29 Tachwedd 2005